

PLANT Y CHWYLDRO

~ Darganfod Blaenafon a'i Phobl ar adeg bwysig o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

NODIADAU I ATHRAWON

Nod yr adnodd hwn yw datblygu sgiliau dysgu plant drwy ymchwilio i fywyd Blaenafon, tref ddiwydiannol yn y De, ar adeg bwysig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trwy amrywiaeth o brofiadau amlgyfrwng, bydd y plant yn astudio amrywiaeth eang o ffynonellau o dystiolaeth hanesyddol, yn gwella eu gallu i gyrraedd casgliadau a rhesymu'n feirniadol a datblygu eu hyder yn eu sgiliau TGCh a llythrennedd. Yn ogystal, byddant yn dysgu am stori ddiddorol ac ysgytiol Blaenafon. Ar un adeg roedd Blaenafon yn un o drefi pwysicaf y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain ac yn un o brif gynhyrchwyr haearn a glo'r byd. Erbyn heddiw mae Blaenafon yn Safle Treftadaeth y Byd ac yn hollbwysig i'n dealltwriaeth o effaith diwydiant ar fywydau gweithwyr cyffredin.

STRWYTHUR YR ADNODD DYSGU

Y Sefyllfa

Cyflwynir sefyllfa gychwynnol i'r plant sy'n rhoi cyd-destun ar gyfer eu hymchwiliad a'u hadroddiad terfynol. Yn yr adnodd hwn, gofynnir iddynt fod yn arolygwyr i Gomisiwn Brenhinol y Frenhines Fictoria i ganfod y gwirionedd am amodau gwaith a bywyd yn y trefi diwydiannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fywydau plant. Mae hyn yn adlewyrchu digwyddiad hanesyddol go iawn – ym 1842 fe aeth arolygwyr ati i lunio adroddiad cenedlaethol ar *The Employment of Children and Young Persons in Mines*; dyma oedd sylfaen Deddf Pyllau Glo (1842) a gyfyngodd ar waith bechgyn a merched ifanc a menywod mewn pyllau glo ledled y deyrnas.

Tasgau a Gweithgareddau

Mae plant yn cyflawni cyfres o weithgareddau, wedi'u dosbarthu o dan bedwar prif bennawd, gan fynd ati'n raddol i gasglu gwybodaeth am fywyd pobl ym Mlaenafon drwy ystyried tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Gydol y gweithgareddau, mae plant yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau meddwl i gyrraedd casgliadau am fywyd gweithwyr cyffredin a chynnig rhesymau am yr amgylchiadau a'r prosesau maent yn sylwi arnynt. Pedwar maes y tasgau yw: Gwaith; Cartrefi ac Iechyd; Addysg; Twf y Gymuned. Cyflwynir gwybodaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau, fel: fideo; rhith-wirionedd; lluniau llonydd; ymarferion modelu; graffiau; mapiau rhyngweithiol a thestun. Mae pob maes yn cynnwys nifer o weithgareddau a chanlyniadau unigol sy'n rhoi cyfle i'r plant ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc a defnyddio eu sgiliau allweddol yn ymarferol. Mae modd argraffu llawer o'r gweithgareddau, felly gall y plant weithio ar y sgrin a/neu ar bapur.

Y Canlyniad

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, gofynnir i'r plant lunio adroddiad cryno ac awgrymu'r hyn y gellid neu y dylid ei wneud i ymateb i'r sefyllfa a ddatgelwyd gan eu

hymchwiliad. Gellir llunio'r adroddiad hwn mewn sawl ffordd bosibl: arddangosfa ystafell ddosbarth; dogfen ysgrifenedig (gyda lluniau?); cyflwyniad Powerpoint; darn o ddrama; barddoniaeth; darn/casgliad o waith celf; cyfuniad o'r rhain ac ati. Pa bynnag gyfrwng a ddefnyddir, dylai'r dystiolaeth y mae'r plant wedi'i chasglu a'r ymatebion priodol iddi lywio'r cynnwys. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, nid ydym wedi cynnig unrhyw arweiniad ar strwythur, cynnwys ac ati gan fod y posibiliadau'n ddiddiwedd.

Hunanwerthuso

Nodwedd bwysig *Plant y Chwyldro* yw'r cyfleuster dewisol i blant wneud asesiadau beirniadol o'u perfformiad eu hunain. Cyn pob gweithgaredd, maent yn cael dewis eu targed eu hunain ar gyfer pa mor dda y maent am gyflawni'r dasg; ydyn nhw am weithio ar lefel Arolygydd dan Hyfforddiant, Arolygydd Cynorthwyol neu Uwch Arolygydd? Mae'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud i gyrraedd bob un o'r lefelau hyn yn cael ei nodi'n glir. Ar ôl y gweithgaredd, gallant asesu eu perfformiad *gwirioneddol* a'r lefel y maent wedi'i chyrraedd.

Cronfa Adnoddau

Mae amrywiol ddeunydd ffynhonnell ychwanegol a pherthnasol wedi'i gynnwys i wella gweithgareddau estyn a gwaith ymchwil personol ac i ddarparu dulliau eraill o gael gafael ar wybodaeth. Awgrymir gwerslyfrau addysgol a gwefannau defnyddiol hefyd er mwyn cynorthwyo gwaith ymchwil pellach.

Cymorth i Athrawon/Rhieni

Yn ogystal â'r nodiadau hyn, mae 'taflenni atebion' enghreifftiol wedi'u darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgareddau ynghyd â fframiau ysgrifennu a/neu fodolau o atebion da ar gyfer y dasg arfaethedig. Mae'r rhain i'w gweld yn yr adran Nodiadau Athrawon.

Gwybodaeth Gefndir – Fideo *Iron Town: Blaenavon and its part in the Industrial Revolution*

Cyn dechrau'r ymchwiliad, byddai'n syniad da i'r plant wylïo'r fideo *Iron Town*, sy'n trafod ystyr gwirioneddol y Chwyldro Diwydiannol a chyfraniad Blaenafon at ddatblygiad yr Ymerodraeth Brydeinig. Ffilmwyd y fideo ym Mlaenafon a'i mynyddoedd cyfagos ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o elfennau hanesyddol allweddol Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r fideo tua 27 munud o hyd.

DEFNYDDIO PLANT Y CHWYLDRO

Mae'r adnodd dysgu hwn wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg fel bod athrawon yn gallu ei ddefnyddio yn ôl eu dymuniad. Gellid defnyddio'r adnodd, er enghraifft, i herio plant mwy galluog i ddysgu'n annibynnol, ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer gwaith grŵp, neu fel sail ar gyfer dysgu ac addysgu dosbarth cyfan, gan ddefnyddio ystafelloedd cyfrifiaduron a/neu fyrddau gwyn rhyngweithiol o bosibl. Gellid defnyddio'r adnodd ar gyfer gwaith tymor cyfan neu fel ymchwiliad byr dwys. Gall athrawon ddefnyddio'r adnodd cyfan neu ddewis a dethol pynciau penodol, neu adnoddau. Mewn llawer o achosion, gall y plant weithio ar y sgrin

neu ar bapur.

Gall *Plant y Chwyldro* ysgogi plant ac oedolion mewn ffyrdd amrywiol, ond rhaid herio myfyrwyr i *feddwl* am ystyr neu oblygiadau'r wybodaeth y maent yn dod o hyd iddi er mwyn sicrhau dysgu gwirioneddol. Mae'n rhaid i athrawon, felly, barhau i allu cychwyn trafodaethau ymysg myfyrwyr er mwyn datblygu syniadau a sgiliau, cyrraedd casgliadau a hybu dealltwriaeth yn ogystal â gwybodaeth.

TASG 1 – GWAITH

1) Ymarferiad Cyfrifiad

Mae'r detholiadau'n dod o ffurflenni cyfrifiad Blaenafon 1841. Mae copi o gofnod gwreiddiol wedi'i gynnwys yn y Gronfa Adnoddau er diddordeb, ond mae'r wybodaeth sydd i'w defnyddio yn y gweithgaredd wedi'i rhoi ar daenlen er mwyn sicrhau ei bod yn glir. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau enghreifftiol o'r cyfrifiad yn unig yn hytrach na chyfeiriadau strydoedd neu glystyrau o dai (byddai hynny wedi bod yn ddiflas ac yn ailadroddus). Fodd bynnag, mae'r cofnod ar gyfer pob cartref unigol a ddangosir yn gyflawn.

Cefndir

Mewn ymgais i godi arian ar gyfer y rhyfeloedd yn erbyn Ffrainc adeg ei Chwyldro, cyflwynwyd Treth Incwm ym 1798. Fodd bynnag, buan iawn y daeth i'r amlwg nad oedd y llywodraeth yn gwybod beth oedd poblogaeth y wlad nac yn gwybod am sefyllfa ddaearyddol neu gymdeithasol y trigolion. Cyflwynwyd y cyfrifiad swyddogol ym 1801 felly, ac mae wedi cael ei gynnal bob deng mlynedd ers hynny (ac eithrio 1941).

Beth mae'r Cyfrifiad yn gallu ei ddweud wrthym

Mae'r cyfrifiad yn adnodd hanfodol ar gyfer haneswyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ei fod yn rhoi gwybodaeth am sawl agwedd bwysig ar fywyd a chymdeithas: galwedigaethau (gan gynnwys llafur plant); maint a natur cartrefi; iaith; ymfudo. Casglwyd y cofnodion gan Rifwr, sef aelod llythrennog o'r gymuned leol a oedd yn teithio o ddrws i ddrws ac yn casglu gwybodaeth am bwy oedd yn byw ym mhob cyfeiriad *ar y noson benodol honno*. Yn anffodus, fel y gwelir yn ein casgliad enghreifftiol, ni chwblhawyd y cofnodion yn llawn bob tro. Nid oedd galwedigaethau menywod a phlant yn cael eu nodi weithiau, gan roi'r gamargraff nad oeddynt yn cael eu cyflogi. Er enghraifft, mae'r cofnod ar gyfer cartref McCarthy yn *Stack Square* (gweler Tasg 2, gweithgaredd 1) yn nodi nad yw'r ddau fachgen ifanc yn gweithio. Fodd bynnag, mae eu tystiolaeth i Gomisiynwyr y Pyllau Glo ym 1842 (gweler y Gronfa Adnoddau) yn dangos yn glir fod y ddau fachgen yn gweithio gyda'u tad yn y gwaith haearn. Mae'r cyfrifiad, felly, yn darparu rhywfaint o wybodaeth am waith a galwedigaethau ym Mlaenafon ym 1841, ond mae'n rhaid i ni ddefnyddio ffynonellau eraill i gael darlun llawn.

Y Gweithgaredd

Mae'r daflen weithgaredd wedi'i chynnwys i helpu plant i ddod yn gyfarwydd â

diwyg cofnod y cyfrifiad a'u helpu i'w ddefnyddio a dod o hyd i wybodaeth ffeithiol. Mae angen i'r athro fynd ati i hybu trafodaethau manylach am yr hyn y mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym am fywyd yn y gorffennol.

2) Fideo *Servants of the Empire* a Thystiolaeth Ymarferiad Disgrifiad Swydd

Ffilmiwyd y fideo dan ddaear yn Amgueddfa Lofaol y Big Pit. Mae'r sgript ar gyfer y cymeriadau amrywiol a bortreadir yn y ffilm yn seiliedig ar adroddiad Comisiwn Brenhinol 1842 ar *The Employment of Children and Young Persons in Mines*, a oedd yn sail i Ddeddf Pyllau Glo'r un flwyddyn. Er gwaethaf y teitl, roedd yr adroddiad hefyd yn cofnodi gwybodaeth am ddynion a'r rhai oedd yn gweithio ar y wyneb mewn diwydiannau cysylltiedig (e.e. y diwydiant haearn).

Mae geiriau'r actorion ychydig yn wahanol mewn rhannau i destun yr adroddiad er mwyn dileu unrhyw ddyblygu dianghenraid a'i gwneud hi'n haws i blant lefaru'r geiriau. Mae geiriau gwreiddiol pob cymeriad wedi'u cynnwys yn y Gronfa Adnoddau, ynghyd â rhai dyfyniadau ychwanegol. Hwyrach y bydd athrawon yn sylwi bod y rhain yn gymysgedd o araith uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r holl destun wedi'i drin fel araith uniongyrchol at ddibenion y fideo. Yn ogystal, mae'n glir bod y dystiolaeth wedi'i rhoi mewn ymateb i gwestiynau gan yr Arolygwyr nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Rydym wedi ysgrifennu ac ychwanegu ein cwestiynau ein hunain ar gyfer sgript y fideo.

Yn ogystal â'r plant eu hunain, dau brif gymeriad y fideo yw Mr. Franks (llais yn unig; mae lens y camera'n cynrychioli ei lygaid) a Mr. John Samuel, sy'n ei dywys o dan y ddaear. R. H. Franks oedd Arolygydd y Comisiwn Brenhinol a gasglodd dystiolaeth yn y De ac a fu ar ymweliad ag ardal Blaenafon ym 1842. John Samuel, 31 oed, oedd Asiant y Pyllau Glo ym Mlaenafon, ac er iddo gyflwyno tystiolaeth i adroddiad Franks, nid oes tystiolaeth ei fod wedi gweithio fel tywysydd Franks o dan y ddaear. Fodd bynnag, mae'n debyg bod unigolyn o'r fath wedi gwneud hynny.

Roedd yr Adroddiad ar y Pyllau Glo yn arloesol gan mai dyna'r adroddiad cyntaf i gynnwys lluniau. Yn ôl y bwriad, cafodd y rhain effaith fawr ar yr Aelodau Seneddol yr oedd yr adroddiad yn ceisio dylanwadu arnynt, ond roedd rhai o berchnogion y mwynfeydd a'r pyllau glo yn gandryll eu bod wedi'u cynnwys(*).

Mae copïau o rai o'r lluniau hyn wedi'u cynnwys yn y Gronfa Adnoddau, ynghyd â darn o ymateb un diwydiannwr hynod flin o'r De.

(*) Mae pwll glo yn cynhyrchu glo ac mae mwynfa yn cynhyrchu carreg haearn (neu fwyn haearn.) Mae *glöwr*, felly, yn cyfeirio at weithiwr sy'n cloddio am lo, tra bod *mwynwr* yn cyfeirio at rywun sy'n cloddio am garreg haearn.

Y Gweithgaredd

Nod yr ymarferiad disgrifiad swydd yw annog plant i ddefnyddio gwybodaeth ffeithiol a'u dychymyg i lunio nodiadau ar brif nodweddion hyd at 3 swydd o'u dewis ac awgrymu'r priodoleddau corfforol a meddyliol sydd eu hangen ar weithwyr i fodloni gofynion y swydd. Dylai hyn brofi'r wybodaeth y maent wedi'i hennill o'r fideo a/neu'r dyfyniadau o'r Gronfa Adnoddau a'u dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei ddweud wrthym am fywydau pobl yn y gorffennol (yn enwedig plant). Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu. Fel y nodwyd uchod, cyfrifoldeb yr athro dosbarth wedyn yw cychwyn trafodaeth fanylach am yr amodau gwaith llym a sut y gallai'r rhain fod wedi effeithio ar iechyd, datblygiad personol a chyfleoedd bywyd plant. Gall plant wyllo fideo llawn *Servants of the Empire* a/neu gyfeirio at bytiau unigol sy'n berthnasol i swyddi penodol.

TASG 2 – CARTREFI AC IECHYD

1) Taith Rithwir Bwthyn Gweithiwr Haearn Cefndir

Mae nifer o hen dai diwydiannol ger gwaith haearn Blaenafon wedi'u diogelu gan Cadw: Henebion Cymru. Adeiladwyd y tai, *Stack Square*, pan sefydlwyd y gwaith haearn tua diwedd y ddeunawfed ganrif ar gyfer rhai o'r gweithwyr hanfodol a'r gweithwyr mwyaf medrus. Er eu bod yn fach ac yn gyfyngedig o ran lle o gymharu â safonau heddiw, mae'n debyg mai dyma rai o'r tai gorau a godwyd i weithwyr yn y dref yn ystod y cyfnod o ffyniant diwydiannol.

Ar gyfer yr ymarferiad hwn, ailddodrefnwyd un ystafell mewn bwthyn am un diwrnod a thynnwyd llun panoramig ohoni er mwyn darparu 'taith rithwir' o gwmpas cartref gweithiwr haearn tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd modd i ni ffilmio mwy o'r tŷ oherwydd prinder amser, ond mae bron pob agwedd hanfodol ar fywyd cartref wedi'i chynrychioli yn y daith syml hon. Mae cofnod cyfrifiad 1841 ar gyfer y tŷ penodol hwn wedi'i gynnwys yn adran Cartrefi ac Iechyd y Gronfa Adnoddau.

Y Daith Rithwir

Wrth i'r plant deithio o gwmpas yr ystafell yn defnyddio eu llygoden, byddant yn dod ar draws nifer o 'fannau poeth', a gynrychiolir gan saeth; wrth glicio ar y rhain, bydd y plentyn yn cael golwg agosach ar y rhan benodol honno o'r ystafell. Gall hyn fod yn ddarn fideo byr, golwg agosach ar ran o'r ystafell (e.e. y gegin) a/neu olwg fanylach ar wrthrych unigol y gellir ei droi. D.S. Mae'n bosibl y bydd plant craff yn sylwi ar y camgymeriad 'bwriadol' yn un o'r darnau fideo: mae'r wraig sy'n smwddio'n dal yr haearn smwddio heb roi lliain o gwmpas yr handlen i ddiogelu'i llaw rhag y gwres. O fewn pob man poeth, gall plant hefyd gael mynediad i feil destun a fydd yn darparu rhywfaint o wybodaeth allweddol iddynt am agweddau ar fywyd mewn tŷ fel hwn.

Pwyntiau Allweddol

Y prif bwyntiau addysgu yw:

* Nid oes nwy, trydan, dŵr tap, draeniau neu garthffosiaeth yn y tŷ hwn.

Roedd dŵr yn cael ei gasglu y tu allan i'r tŷ, o nant, ffynnon, pwmp neu gasgen ddŵr glaw o bosibl (gweler y man poeth bwced).

* Defnyddiwyd un ystafell ar gyfer bron pob tasg ddomestig, fel: gweithio; coginio; bwyta; ymlacio; ymolchi a golchi dillad a hyd yn oed cysgu.

* Roedd y golau'n dod o olau naturiol drwy'r ffenestr fach a/neu'r drws (nid yn ystod tywydd gwael). Bydden nhw'n llosgi brwyn hefyd i gael golau, (yn rhad ond yn gymharol aneffeithiol) neu ganhwyllau (mwy o olau ond yn ddud). Gweler man poeth y daliwr canhwyllau. Nid yw'r ffenestr yn agor. Roedd awyru gwael mewn cartrefi'n broblem gyffredinol, ac yn aml yn arwain at broblemau lleithder. O ganlyniad, roedd salwch a chlefydau'n gysylltiedig â'r system anadlu'n gyffredin ac yn angheuol yn aml.

* Roedd y gwres yn dod o'r tân yn y gegin (tân coed neu lo) a defnyddiwyd hwn i goginio'r holl fwyd hefyd (gweler man poeth y gegin). Roedd ffwrn fach yng nghornel chwith y lle tân ar gyfer pobi bara gwenith, er mae'n debyg bod bara ceirch yn fwy cyffredin yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hwn yn cael ei bobi dros y tân ar faen (fel picau ar y maen) a gwelir enghraifft yn y prif lun, ychydig y tu ôl i'r gwely. Roedd cawl llysiau neu lobscows yn cael ei fwyta bron bob dydd yn y rhan fwyaf o gartrefi Cymru, ac roedd i'w weld yn mudferwi mewn powlen grog neu grochan dros y tân. Roedd modd defnyddio'r ffwrn ar yr ochr dde i rostio cig, er mai anaml iawn y byddai llawer o deuluoedd wedi cael mwynhau'r moethusrwydd hwn yn nhref ddiwydiannol Blaenafon. Sylwer hefyd ar y tegell ar ganol y grât; roedd y teulu yn dibynnu ar y tân i gael dŵr poeth ar gyfer coginio, yfed neu olchi.

* Roedd llawer gormod o bobl yn byw yng nghartrefi'r gweithwyr diwydiannol yn aml, gan fod rhieni'n tueddu i fagu cymaint o blant â phosibl. Rhan o'r rheswm am hyn oedd cynyddu enillion y teulu (gweler y Gronfa Adnoddau) a rheswm arall oedd y ffaith fod cyfradd marwolaethau plant yn uchel iawn (gweler Gweithgaredd 2 isod). Roedd llawer o gartrefi yn cynnig llety am dâl hefyd, eto er mwyn cynyddu incwm y teulu. Roedd trefniadau cysgu'n elfennol iawn gan amlaf, gyda sawl person (heb ymolchi) yn rhannu'r un gwely yn aml (gweler y man poeth gwely).

* Mae rhai o fwydydd pwysicaf cartref gweithiwr diwydiannol i'w gweld ar y bwrdd. Yn ogystal â'r bwyd y cyfeirir ato uchod (h.y. bara gwenith, bara ceirch a lobscows), ymysg y prif fwydydd eraill oedd: menyn; lard; caws; tatws; llysiau; uwd; y prif ddioddydd oedd te a chwrw. Defnyddiwyd dulliau cyntefig iawn i storio bwyd: roedd modd halltu neu fygu cig a phiclo rhai bwydydd neu eu troi'n gyffeithiau (gweler man poeth jar storio).

* Prinder dodrefn, addurniadau a moethau. Byddai wedi bod yn anodd iawn gorffwys ac ymlacio yn dilyn diwrnod o waith caled iawn.

* Natur lafur-ddwys y gwaith tŷ (gweler y man poeth ysgubell). Heb drydan, roedd angen cryn ymdrech gorfforol i wneud gwaith tŷ fel glanhau, golchi a choginio. D.S. Nododd rhai merched yn eu tystiolaeth i'r Comisiwn Brenhinol eu bod yn gorfod helpu eu mamau â'r gwaith tŷ ar ôl dod adre o'r gwaith (gweler fideo *Servants of the Empire* a'r Gronfa Adnoddau).

Y Gweithgaredd

Dylai'r daflen weithgaredd helpu'r plant i ddod o hyd i wybodaeth ffeithiol allweddol o'r daith a'i chofnodi. Mae mwyafrif yr 'atebion' neu syniadau perthnasol wedi'u cynnwys yn y manau poeth a'r ffeiliau testun, a bydd dod o hyd i'r wybodaeth hon yn brawf ar sgiliau arsylwi'r plant a'u gallu i gymryd nodiadau.

2) Gweithgaredd Siopa Cael Dau Ben Llinyn Ynghyd

Amcanion

Mae yna ddau amcan i'r gweithgaredd hwn:

- Gweld pa mor llwyddiannus y mae plant wrth reoli arian prin y teulu a chyflawni'r amcan dymunol o sicrhau bod eu teulu yn gynnes, yn lân ac yn cael digon o fwyd. Allan nhw wneud dewisiadau synhwyrol wrth wario'u harian er mwyn darparu deiet cytbwys ac amgylchedd cartref cyfforddus (o fewn terfynau'r gyllideb)?
- Helpu plant i sylweddoli y byddai cyflawni'r amcan hwn wedi bod yn haws o lawer i rai teuluoedd a bron yn amhosibl i eraill, gan ddibynnu ar eu sgiliau, eu statws a'u henillion.

Dylid annog plant i ystyried y goblygiadau iechyd tebygol i deuluoedd tlotach yn sgil y ffaith nad yw eu cyllideb wythnosol yn eu galluogi i gael deiet cytbwys a digon o faeth i'w paratoi am eu gwaith caled bob dydd yn y gwaith. Dylai'r gweithgaredd *Babanod, Cornwyddydd a Chladdedigaeithau* yn y dasg Cartrefi ac Iechyd eu helpu i archwilio'r syniad hwn ymhellach.

Mae taflen weithgaredd wedi'i darparu i helpu i grynhoi rhai syniadau a chasgliadau.

Tystiolaeth

i) Galwedigaethau a Chyflogau

Ar gyfer yr ymarferiad hwn, rydym yn cymryd yn ganiataol bod yna chwe aelod o'r teulu (mae cofnodion cyfrifiad enghreifftiol Gweithgaredd 1 yn awgrymu bod yna 7 mewn gwirionedd). Nid teuluoedd go iawn yw'r tri theulu, ond mae'r galwedigaethau a'r cyflogau sy'n cael eu nodi yn dod yn uniongyrchol o adroddiad Comisiwn Brenhinol 1842 y cyfeiriwyd ato yn gynharach, ac maent felly'n ddilys ar gyfer pob aelod o'r teulu.

D.S. Mae cyflogau a phrisiau'n cael eu mynegi mewn hen geiniogau (d.) yn hytrach na mewn punnoedd, sylltau a cheiniogau (£, s. d.) oherwydd mae'n rhaid i bopeth gael ei fynegi mewn uned arian sengl mewn ymarferiad fel hwn er mwyn hwyluso cyfrifiadau a chymariaethau.

ii) Prisiau a Chyfansymiau

Mae prisiau a chyfansymiau bob nwydd yn amrywio i raddau helaeth oherwydd ein bod wedi gorfod casglu tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau a dyddiadau. Mae rhai prisiau/cyfansymiau bron yn hollol gywir ar gyfer Blaenafon

ym 1842. Er enghraifft, mae cofnodion 1840 yn dangos bod Siop Dryc Blaenafon (*) yn codi 24d. am 4 pwys o gig dafad, 22d. am 4 pwys o gig eidion a 18d. am fag 2 bwys o siwgr. Mae eraill yn gywir o ran y dyddiad ond nid o anghenraid o ran y lleoliad; er enghraifft, mae'r *Illustrated London News* yn nodi mai 10d. yw pris torth bara gwenith 4 pwys ar 1 Hydref 1843. Fodd bynnag, mewn rhai achosion rydym wedi canfod pris cyfanswm arbennig o nwydd penodol, ond ar ddyddiad ychydig yn wahanol; mewn achosion eraill, rydym yn gwybod beth yw cyfran yr incwm wythnosol a fyddai wedi cael ei wario ar gyfartaledd ar nwydd penodol (e.e. tatws), ond nid yr unedau maint. Rydym wedi gorfod dyfalu rhai pethau o ganlyniad.

(*) Roedd Siop Dryc yn eiddo i'r cwmni a oedd yn cyflogi ac yn talu'r gweithwyr. Roedd y prisiau'n sylweddol uwch na phrisiau siopau preifat, ond talwyd y gweithwyr gyda thocynnau'r cwmni a oedd i'w defnyddio yn y Siop Dryc yn unig yn hytrach na gydag arian. O ganlyniad, roedd y rhain ynghlwm wrth brisiau'r cwmni. Roedd y System Dryc yn hynod amhoblogaidd ac fe gafodd ei dileu yn ddiweddarach yn y ganrif.

Y Gweithgaredd

Fodd bynnag, er gwaethaf y cymhlethdodau hyn mae'r ymarferiad yn un dilys. Mae'r rhestr brisiau'n cynnwys yr holl brif nwyddau y byddai teulu dosbarth gweithiol wedi dibynnu arnynt, ynghyd â nifer o eitemau moethus neu eitemau llai hanfodol a fyddai ar gael (ac yn ddeniadol) iddo.

Mae'n rhaid i'r plant benderfynu pa eitemau yw'r pwysicaf, a faint o'u hincwm y byddant yn ei wario ar bob un. Y bwyd pwysicaf oedd bara. Er mwyn gwneud yr ymarferiad yn fwy realistig ac anodd, rydym wedi neilltuo swm penodol o gyllideb pob teulu ar gyfer bara a rhent (elfen arall o'r gyllideb nad oedd gan y teulu unrhyw reolaeth drosti, neu ddim ond ychydig iawn o reolaeth). Mae cyfanswm y bara a oedd yn cael ei fwyta wedi'i gyfrifo ar sail un dorth y dydd ar gyfer dynion a hanner torth y dydd ar gyfer menywod a phlant.

Mae'n debyg y bydd y plant yn canfod nad yw teulu'r labrwr yn gallu fforddio prynu popeth sydd ei angen arno bob wythnos, nac yn gallu cynilo arian neu ei wario ar ddillad neu ddodrefn, er gwaetha'r ffaith fod pedwar aelod o'r teulu yn gweithio. Yn ddi-os, nid oes arian ar gael ar gyfer hamdden neu adloniant. Er bod sefyllfa teulu'r glöwr rywfaint yn well, nid yw'n gyfforddus o bell ffordd. Mae'n ymddangos bod teulu'r pydlwr yn gwneud yn gymharol dda yn ystod y cyfnod hwn. Yn ddiau, roedd y pydlwyr ymysg y gweithwyr diwydiannol mwyaf llwyddiannus, ond roedd eu cyflogau'n newid yn ddirfawr bob blwyddyn a gallent fod wedi cynyddu neu leihau (o bosibl yn sylweddol) erbyn yr un amser y flwyddyn nesaf. Roedd yn ddoeth iawn iddynt gynilo rhywfaint o'u harian felly. D.S. Yr hyn na allwn ei gyfrifo yw'r graddau y byddai cynnyrch cartref, fel llysiau a chadw mochyn o bosibl wedi ychwanegu at ddeiet y teulu. Efallai y gellid gofyn i'r plant feddwl am ddulliau eraill i'r teulu ddod o hyd i fwyd heblaw drwy ei brynu?

3) Gweithgaredd *Babanod, Cornwydydd a Chladdedigaeithau*

Amcanion

Yng ngweithgaredd cyntaf y dasg hon mae'r plant wedi nodi prif nodweddion amodau cartrefi ac wedi trafod eu goblygiadau posibl o ran iechyd a bywyd teuluol; yn yr ail maent wedi gweld sut oedd cyfraddau tâl yn amharu ar allu

llawer o deuluoedd i ddarparu deiet cytbwys, maethlon ac amgylchedd cartref iach. Yn y gweithgaredd hwn, bydd plant yn ystyried ac yn dadansoddi tystiolaeth ar gyfer effeithiau cronol yr amgylchiadau hyn ar ddisgwyliad oes ac yn nodi rhai o'r clefydau mwyaf cyffredin a difrifol a oedd yn effeithio ar weithwyr yn y cyfnod hwn.

Tystiolaeth

Mae'r dystiolaeth yn ymwneud â chladdedigaeithau yn dod o'r gofrestr o farwolaethau ar gyfer plwyf Llanofar(*) yn y flwyddyn 1841. Mae'r dystiolaeth ar gyfer clefydau cyffredin yn dod o lyfrau log Ysgol Sant Pedr, Blaenafon. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hyn yn perthyn i ran olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan fod cofnodion y cyfnod yr ydym yn canolbwyntio arno ar goll. Er bod hyn yn anffodus, elfen bwysig o'r broses o ddysgu meddwl fel hanesydd yw cydnabod bod darnau allweddol o wybodaeth ar goll weithiau. Mewn rhai achosion, gallwn lenwi'r bylchau mwy neu lai drwy ddefnyddio tystiolaeth o natur debyg; yn yr achos hwn rydym wedi defnyddio tystiolaeth o'r un lle, yr un ffynhonnell ond o gyfnod ychydig yn ddiweddarach. Nid yw'n berffaith, ond mae'n agos iawn.

Y Gweithgaredd

Mae yna dair rhan i *Babanod, Cornwydydd a Chladdedigaeithau*. Yn y rhan gyntaf, mae'r plant yn cofnodi data yn ymwneud ag oedran marwolaeth pobl leol ym 1841. Wrth iddynt gofnodi'r wybodaeth ar siart cyfrif, mae graff bar yn cael ei greu'n awtomatig sy'n dangos y gyfradd uchel o farwolaethau plant yn glir. Yn y ffenestr gwestiynau, mae nodweddion y patrwm hwn yn cael eu hatgyfnerthu a gofynnir i'r plant ddefnyddio'r wybodaeth y maent wedi dod o hyd iddi eisoes i egluro'r patrymau. Ar ôl dysgu bod llawer o blant yn marw yn y cyfnod hwn, mae'r plant yn dod o hyd i wybodaeth am rai o'r clefydau a oedd yn gyfrifol am y gyfradd farwolaethau echrydus yn yr adran ar lyfrau log yr ysgol.

(*) Ni chrëwyd plwyf eglwysig Blaenafon tan 1860. Fe gafodd ei ffurfio o rannau o nifer o blwyfi eraill, gan gynnwys plwyf Llanofar.

TASG 3 – ADDYSG

Cefndir

Agorwyd Ysgol Sant Pedr, Blaenafon ym 1816 a hon oedd yr ysgol gyntaf yng Nghymru a sefydlwyd gan ddiwydiannwr er lles ei weithwyr. Mae'r adeilad gwreiddiol yn dal i sefyll ac ar hyn o bryd (2003) mae'n cael ei adnewyddu fel Canolfan Ddehongli ar gyfer Blaenafon. Fodd bynnag, hyd at ran olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Ychydig iawn o deuluoedd gweithwyr diwydiannol oedd yn gallu fforddio gadael i'w plant fynd i'r ysgol yn rheolaidd gan fod angen i'r plant hyn helpu i sicrhau bod y cartref yn ennill incwm da (gweler fideo *Servants of the Empire*).

Y Gweithgaredd

Yn y fideo gyntaf, *School Rules, OK?*, mae plant Ysgol Gynradd Clytha yn cymryd eu tro i adrodd rheolau gwreiddiol 1816 Ysgol Sant Pedr. Ar ôl i bob un o'r deuddeg rheol gael ei hadrodd, mae fersiwn modern yn cael ei gynnig er

mwyn ei gwneud hi'n haws i ddysgwyr ddeall y rheol.

Mae'r ail fideo, *School Days*, *Victorian Ways*, yn cynnwys darnau o lyfrau log Ysgol Sant Pedr o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae'n helpu i egluro agweddau ar y cwricwlwm, dulliau addysgu a disgyblaeth yn yr ysgol. Yn anffodus, mae'r llyfrau log ar gyfer rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi mynd ar goll, ond mae'n debyg na fu newid mawr yn y dulliau addysgu a chynnwys y cwricwlwm gydol y cyfnod Fictoraidd.

Yn yr un modd â *Servants of the Empire*, gellir gwyllo'r ddwy fideo yn eu cyfanrwydd a/neu wyllo darnau unigol ohonynt.

Ar ôl iddynt wyllo'r ddwy fideo, y dasg i'r plant yw llunio cofnodion llyfr log ar gyfer diwrnod ysgol 'arferol' ym 1841 a diwrnod yn yr ysgol heddiw. Ar ôl hynny gofynnir i'r plant nodi gwahaniaethau rhwng y ddau a chynnig rhesymau pam eu bod mor wahanol.

Mae'r rhestr llyfrau'n cynnwys sawl cyfeiriad y gall plant ei ddefnyddio i wneud gwaith ymchwil pellach ar ysgolion Fictoraidd. Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, y prif bwyntiau addysgu yw nad oedd llawer o blant yn cael nemor ddim neu ddim addysg o gwbl, a bod y cwricwlwm yn ddiflas a chaeth iawn a'r ddisgyblaeth yn llym dros ben. Fodd bynnag, er bod bywyd yn yr ysgol yn galed, roedd yn well o lawer na llafurio dan ddaear neu wrth y ffwrneisiau.

TASG 4 – TWF Y GYMUNED

Mae yna dair elfen i'r adran hon.

Ymarferiad Mapio Rhyngweithiol

Ymarferiad 'llusgosod' yw hwn i greu map o Flaenafon sy'n dangos y prif adeiladau a nodweddion erbyn y flwyddyn 1842. Mae modd ychwanegu nodweddion at y map mewn tair cylchfa amser: cyn 1800; erbyn 1825; erbyn 1842. Os yw nodweddion yn cael eu llusgo ar y map yn y cylchfa amser anghywir, byddant yn cael eu gwrthod a'u hanfon yn ôl. Mae rhestr o ddyddiadau allweddol yn natblygiad Blaenafon wedi'i chynnwys i alluogi'r plant i greu'r map yn y drefn gywir. Mae gan y nodweddion eu hunain siapiau penodol a dim ond un lle cymwys sydd ar eu cyfer ar y map. Rhaid cofio mai creu teimlad o ddatblygiad *cronolegol* y dref yw diben yr ymarferiad, ac nid oeddem am i'r plant wynebu problemau oherwydd nad oeddent yn gwybod lleoliad pob capel, er enghraifft. Mae cynllun sylfaenol y dref sy'n cael ei ddefnyddio fel fframwaith yn seiliedig ar fap y degwm 1843.

Ar ôl cwblhau'r ymarferiad, gall y plant ddefnyddio'r tab llithr ar y llinell amser i adolygu cyfansoddiad y dref ar unrhyw adeg rhwng 1800 a 1842. Mae hyn yn eu galluogi wedyn i ddysgu mwy am gynllun daearyddol y dref.

Roedd amodau byw ym Mlaenafon yn sylfaenol a garw iawn yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl bod y lle'n debyg i dref ffin neu anheddiad mwynloddio yng ngorllewin America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel sy'n cael eu gweld yn aml mewn ffilmiau ac ar y teledu. Mae'n debyg na wnaeth Blaenafon dyfu i fod yn dref tan ar ôl 1850. Mor hwyr â 1876 mae teithiwr yn disgrifio Blaenafon fel hyn:

...Tua chwe milltir o Bont-y-pŵl i gyfeiriad Cwmbrân fe saif tref anorffenedig Blaenafon. Lle sy'n llawn glowyr a gweithwyr haearn yw Blaenafon. Fyddai neb yn ystyried byw yno oni bai bod ganddynt ryw fath o gysylltiad â'r glowyr neu'r gweithfeydd...

Roedd y tai'n fach iawn ac nid oedd palmantau ar y strydoedd na systemau draenio na charthffosiaeth addas. O ganlyniad, roedd amodau byw'r trigolion yn llym iawn os nad yn gyfan gwbl angheuol.

Taflen Weithgaredd Twf Poblogaeth

Gweithgaredd syml yw hwn sy'n cymharu ffigurau poblogaeth Blaenafon â thref sirol Trefynwy ac yn gofyn am resymau i egluro'r gwahaniaeth rhwng twf y ddwy dref. Trefynwy oedd prif dref draddodiadol y sir, yn anheddiad Canoloesol gwreiddiol, yn dref farchnad ar gyfer y wlad o'i chwmpas ac yn gartref Brawdlys y sir. Fodd bynnag, ni chafodd ei heffeithio gan y broses ddiwydiannu, ac roedd ei maint a'i phoblogaeth yn gymharol sefydlog gydol y cyfnod Fictoraidd. Ar y llaw arall, y Chwyldro Diwydiannol oedd yn gwbl gyfrifol am fodolaeth Blaenafon, ac wrth i'r galw am haearn a glo gynyddu, tyfodd y dref ar raddfa anhygoel.

Ymarferiad Ysgrifennu Dychmygus Dychwelyd i Flaenafon

Ymarferiad ysgrifennu creadigol yw hwn lle mae'r plant yn dychmygu eu bod yn frodor hŷn o'r cwm a symudodd i ffwrdd cyn y broses ddiwydiannu ac sydd wedi dychwelyd am y tro cyntaf ym 1842. Y dasg yw ysgrifennu llythyr at ffrind neu berthynas yn disgrifio'r newidiadau sydd wedi digwydd yn eich ardal enedigol a'ch ymateb iddynt. Yn y llythyr enghreifftiol sy'n cael ei gynnwys yn yr adran hon, rydym wedi portreadu'r dref mewn ffordd eithaf negyddol, gan bwysleisio'r sŵn, yr anhrefn, y llygredd a garwedd ei phobl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y plant yn portreadu'r dref mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, yn ystod ei ymweliad â Sir Fynwy ym 1800, cofnododd yr Archddiacon William Coxe y sylwadau canlynol am waith haearn Nant y Glo, a sefydlwyd ym 1795 mewn cwm gwledig tebyg gerllaw (ond a oedd wedi cau dros dro adeg yr ymweliad):

Mae'n drist gweld bod y gwaith wedi cau gan ei fod wedi dod â bywyd ac ysbryd newydd i'r ardaloedd llwm hyn, a byddai wedi bywiogi'r ardaloedd cyfagos cyn bo hir hefyd.

Rhaid cofio, wrth gwrs, bod Coxe wedi ymweld â'r gwaith am ychydig oriau yn unig ac nad oedd rhaid iddo fyw yn Nant y Glo. Roedd wrth ei fodd â Blaenafon: *Er mai dim ond ym 1789 yr agorwyd y gwaith, mae tri chant a hanner o ddynion yn cael eu cyflogi yno ac mae dros fil o bobl yn byw yn yr ardal.*

Mae pantiau'r creigiau ac ochrau'r mynyddoedd yn gyforiog o gartrefi ac mae'r tiroedd wedi'u trawsnewid yn ŷd a phorfa. Dyma ganlyniad anhygoel diwydiant wrth gael ei lywio'n gall!

Nid yw'r ymarferiad yn chwilio am agwedd 'gywir' neu 'anghywir' tuag at dwf Blaenafon (a gall athrawon ddewis anwybyddu'r llythyr enghreifftiol yn gyfan gwbl os ydynt yn dymuno). Mae'n bosibl y bydd sefyllfa'r gweithwyr yn ennill cydymdeimlad y plant, yn enwedig yr oriau gwaith hir, yr amodau peryglus, y tai gwael a'r cyflogau isel.

Fodd bynnag, fel William Coxe, mae'n bosibl y bydd bywiogrwydd a phrysurdeb y

datblygiadau diwydiannol a threfol a'u cyfraniad at dwf cyfoeth a llewyrch ym Mhrydain yn creu argraff ar y plant. Yn ddi-os, llwyddodd diwydiant i ddod â swyddi, cyfleusterau a dulliau cysylltu newydd i ardaloedd a oedd gynt heb fawr o boblogaeth, heb eu datblygu ac yn anghysbell. Daeth rhai pobl yn gyfoethog iawn yn sgil y diwydiannau ac enillodd Prydain statws digyffelyb yn y byd o ganlyniad. Fodd bynnag, roedd pris i'w dalu am gyflymder twf y dref, sef ansawdd yr adeiladau, y strydoedd a glanweithdra, ac mae'n debyg nad oedd gan dref Blaenafon fawr o werth esthetig ym 1842.

Ai cofadail anferth i ymdrech, mentergarwch a grym oedd datblygu Blaenafon ynteu'n broses o 'reibio'r wlad hardd'? Gellid defnyddio hyn fel sail ardderchog ar gyfer trafodaeth ddosbarth cyn i'r plant fwrw iddi â'r ymarferiad ysgrifennu.

Yn y pen draw, bydd y plant yn ymateb yn unol â'u safbwyntiau a'u teimladau eu hunain. Wrth asesu eu gwaith, dylai athrawon nodi i ba raddau y mae eu hatebion wedi'u llywio gan y dystiolaeth y maent wedi'i chasglu. Mae'n bosibl y bydd dehongliadau'r plant yn wahanol i rai'r athro, ond os ydynt yn dangos dealltwriaeth o'r materion, yn cael eu llywio gan wybodaeth ffeithiol ac wedi'u mynegi'n dda, dylent gael eu canmol yn llawn.

Prif nod yr adran hon yw datblygu dealltwriaeth o'r ffaith fod y broses ddiwydiannu wedi arwain at dwf cyflym trefi a dylifiad anferth o bobl i ardaloedd a oedd gynt yn wag. Wrth ddefnyddio'r wybodaeth o'r adrannau blaenorol, y gobaith yw y bydd y plant yn sylweddoli bod y cynnydd sydyn mewn poblogaeth wedi cael dylanwad mawr ar ansawdd y tai, iechyd y cyhoedd a chyfleusterau'r dref.

* * * * *